

# Gweithwyr cymorth dysgu ysgolion

## Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

### Dadansoddiad o sylwadau testun agored



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## 1. Baich gwaith

### Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – baich gwaith

- cynnydd mewn oriau gwaith
- cyflogi mwy o staff i ledaenu'r baich gwaith
- mwy o staff cyflenwi (h.y. CPA)
- llai o ffocws ar weinyddu a dyletswyddau ychwanegol
- defnyddio cryfderau unigol aelodau staff
- mwy o gefnogaeth gan arweinwyr ysgol

**Cyfanswm nifer yr ymatebion: 3,424**

**Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 443**

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 6b – A oes gennych awgrymiadau ymarferol ar y newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn fwy hylaw?

### Dadansoddiad o sylwadau ynghylch baich gwaith

#### 1.1. Cynnydd mewn oriau gwaith (271 o sylwadau)

- Ar hyn o bryd, caiff staff dâl dim ond am yr oriau pan fydd plant yn yr ysgol, ac nid ar gyfer yr holl oriau paratoi;
- Awgrymwyd mai pwynt cychwyn fyddai ymestyn oriau â thâl tan 4pm.

#### Enghreifftiau

*Cael cynnydd mewn oriau dan gontract er mwyn caniatáu i rannau penodol o'r gwaith h.y. gweinyddu, datblygiad proffesiynol, arddangosfeydd, paratoi gwaith ac ati, gael eu cwblhau ar ôl i'r plant fynd adref. Felly, byddai'r plant yn elwa o hyn oherwydd byddent yn cael mwy o gymorth.*

*Mwy o amser i gwblhau tasgau gwaith papur/cynllunio/cofnodion ymddygiad.*

#### 1.2. Cyflogi mwy o staff i ledaenu'r baich gwaith (59 o sylwadau)

- Galwadau am niferoedd ychwanegol yn gyffredinol, nid unrhyw rôl yn benodol;
- O ganlyniad i'r newidiadau mewn patrymau gweithio, mae gweithwyr cymorth yn ymgymryd â llawer o ddyletswyddau nad ydynt yn rhan o'u swydd, h.y. goruchwylio amser cinio;
- Yn aml, mae un person yn gwneud gwaith 2 i 3 o bobl.

#### Enghreifftiau

*Cyflogi Cynorthwydd Addysgu a chynorthwydd cinio. Gofyn i athro wneud un gwasanaeth yr wythnos i leihau'r baich arna' i.*

*Talu mwy o Gynorthwywyr Addysgu ar yr un lefel i ledaenu'r baich gwaith. Ar hyn o bryd, mae tâl llawer o Gynorthwywyr Addysgu ar lefelau is.*

### **1.3. Mwy o staff cyflenwi (h.y. CPA) (56 o sylwadau)**

- Mae'r baich gwaith yn rhy fawr i un aelod staff;
- Byddai angen i unrhyw staff ychwanegol fod yn gymwys hefyd, nid dim ond nifer fwy;
- Staff cyflenwi yn arbennig ar gyfer CPA a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

#### Enghreifftiau

*Mae angen mwy o bobl arnom ni. Os na fyddwn i'n gweithio yn ystod fy awr ginio, ni fyddwn i fyth yn barod ar gyfer yr ystafell ddosbarth a/neu ni fyddai arddangosfeydd y dosbarth a deunydd gwersi athrawon fyth yn barod.*

*Mwy o gymorth, cyflogi rhywun arall i gynorthwyo. Rwy'n unig weithiwr.*

### **1.4. Llai o ffocws ar weinyddu a dyletswyddau ychwanegol (40 o sylwadau)**

- Llai o waith papur a chyfarfodydd;
- Ildio dyletswyddau fel dyletswydd amser cinio neu amser egwyl i ganolbwyntio ar yr agweddau amlycach ar y rôl;
- Arbennig o wir ar gyfer Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch.

#### Enghreifftiau

*Lleihau gwaith papur.*

*Rôl glir nad yw'n cael ei niwlo gan swyddi/rolau ychwanegol nad ydynt yn ein swydd-ddisgrifiad e.e. ysgrifennu cynlluniau ADY.*

### **1.5. Defnyddio cryfderau unigol aelodau staff (28 o sylwadau)**

- Yn ystod y pandemig, mae'r ffocws wedi symud oddi wrth ddyletswyddau dan gontract;
- Mae pryderon bod gweithwyr cymorth yn ymgymryd â rhai o ddyletswyddau athro o ganlyniad i fod yn yr ysgol, ond nad ydynt yn cael eu cydnabod am hynny.

#### Enghreifftiau

*Canolbwyntio ar y rôl dan gontract. Peidio â goruchwyllo amseroedd cinio a chwarae yn ddyddiol adeg pob egwyl.*

### **1.6. Mwy o gefnogaeth gan arweinwyr ysgol (26 o sylwadau)**

- Caiff gweithwyr cymorth eu gadael i wneud fel y mynnont, yn gyffredinol;
- Ni chânt eu trin yr un fath ag athrawon;
- Yn aml, gofynnir iddynt ymgymryd â thasgau eraill h.y. glanhau;
- Angen mwy o help yn CA2.

#### Enghreifftiau

*Gwaith papur, darparu tystiolaeth, gwell TG, cyfathrebu effeithiol yn unol â rheolwyr llinell.*

*Y diffyg staff yw'r prif beth, does dim digon o help ac rwy'n teimlo mod i'n gwneud gwaith sy'n waith i 2 i 3 o bobl, ar fy mhen fy hun. Rwy'n gweithio mwy na'r oriau rwy'n cael tâl amdanynt. Dydw i ddim yn cael unrhyw gefnogaeth gan y pennaeth o gwbl ac rwy'n amau nad dim ond siarad drosof fy hunan ydw i. Mae'n waith mor anodd ei wneud ac nid yw staff cymorth yn cael eu trin yr un peth ag athrawon.*

## 2. Baich gwaith – Darparu dysgu cyfunol / o bell

### Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – darparu dysgu cyfunol / o bell

- gofynion gweinyddol a / neu waith papur a dyletswyddau ychwanegol
- heriau darparu dysgu cyfunol/o bell a datblygu adnoddau
- mwy o gysylltiad â disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid
- ymgysylltu o gartref – disgyblion/cydweithwyr/cyflogwr

### Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella:

- digon o staff – angen mwy o staff cyflenwi (h.y. CPA);
- gwell TGCh – dyluniad, dibynadwyedd a'r defnydd o systemau/cymorth TG sydd ar gael;
- mwy o gymorth ar gael gan reolwyr/arweinwyr;
- cynyddu oriau gweithio disgwylidig;
- sylwadau ychwanegol: yn gysylltiedig â digon o dâl/mwy o dâl

Cyfanswm yr ymatebion: 3,424

Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 610

Cyfanswm yr awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a roddwyd: 132

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 9b – Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid gwella hyn

## Dadansoddiad o sylwadau ynghylch darparu dysgu cyfunol / o bell

### 2.1. Gofynion gweinyddol a / neu waith papur a dyletswyddau ychwanegol (158 o sylwadau)

- Mae cynnydd ym maint dosbarthiadau yn ychwanegu at y mater hwn;
- Mae mwy o negeseuon e-bost a chyfarfodydd rhwng staff gan fod llai o gysylltiad corfforol nawr;
- Gall gohebiaeth gyrraedd ar unrhyw adeg nawr, nid dim ond yn ystod oriau gweithio traddodiadol.

### Enghreifftiau

*Doeddwn i ddim yn gwneud unrhyw waith ar ôl i mi adael yr ystafell ddosbarth, ni ofynnwyd dim ohonof i. Nawr, rwy'n marcio drwy'r dydd ac, weithiau, mae'n cymryd tan 7/8 y nos i mi orffen pawb.*

*Gall plant gyflwyno gwaith ar amseroedd gwahanol o'r dydd, gan olygu bod y marcio ar wasgar.*

### 2.2. Heriau darparu dysgu cyfunol/o bell a datblygu adnoddau (153 o sylwadau)

- Gwaith paratoi a marcio ychwanegol;
- Mae pob gwers unigol yn cymryd mwy o amser paratoi, sy'n gallu tyfu fel caseg eira dros wythnosau a misoedd;
- Ni ddylai cynllunio a gosod gwaith fod yn rhan o gylch gwaith Cynorthwyr Addysgu gan nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant gofynnol;
- Hefyd, mae problemau personol yn ymyrryd h.y. straen, gofalu am y teulu;

- Creu fideos, gwefannau ac ati, fel y gall dysgwyr gael at gynnwys unrhyw bryd.

#### Enghreifftiau

*Gorfod dysgu'n gyflym iawn sut i ddefnyddio technoleg yn dda. Nid wyf yn dda am TG ac mae wedi cymryd oriau maith i mi ddysgu sut i baratoi gwaith i'w rannu ar Teams / Google Classroom ac yna marcio'r holl waith a gyflwynwyd a rhoi sylwadau arno.*

*Rhai disgyblion yn yr ysgol, eraill gartref, galwadau lles, ddim yn gwybod pwy fydd yn bresennol bob dydd. Absenoldebau staff.*

### **2.3. Mwy o gysylltiad â disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid (151 o sylwadau)**

- Gall galwadau ffôn â rhieni gymryd sawl awr ychwanegol gyda'r nos;
- Gorfod cysylltu â rhieni i sicrhau bod plant yn ymgysylltu;
- Bod ar gael trwy'r dydd, gan nad oes trefn i gysylltiad gan ddisgyblion;
- Goruchwylio dosbarthiadau heb athro'n bresennol.

#### Enghreifftiau

*Mae gen i fwy o gysylltiad â rhieni ac rwy'n sylwi mod i'n cynghori, yn cefnogi ac yn derbyn galwadau ffôn gyda'r nos.*

*Treulio amser ychwanegol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr.*

### **2.4. Ymgysylltu o gartref – disgyblion/cydweithwyr/cyflogwr (27 o sylwadau)**

- Nid yw disgyblion bob amser yn ymgysylltu yn yr 'amserlen neilltuedig';
- Mae'n anos fyth ymgysylltu â disgyblion sydd ag anghenion addysgol penodol, h.y. nam ar y golwg neu nam ar y clyw;
- Yn aml, caiff llai o sylw ei dalu i ddisgyblion anodd o ran ymddygiad ac maen nhw'n llai awyddus fyth i wrando a dysgu;
- Nifer 'sylweddol uwch' o 'broblemau lles' myfyrwyr.

#### Enghreifftiau

*Mae'n rhaid o hyd i mi wneud yr holl bethau byddwn i'n eu gwneud fel arfer ac mae'n rhaid i mi gysylltu â theuluoedd nad ydynt yn ymgysylltu â dysgu o bell a'u helpu nhw i gyflawni hyn.*

*Cysylltu â rhieni a myfyrwyr i ymuno â gwersi sydd wedi cael yr effaith fwyaf.*

### **Dadansoddiad o sylwadau ynghylch awgrymiadau ymarferol ar sut y gellir gwella dysgu cyfunol/o bell:**

### **2.5. Digon o staff – angen mwy o staff cyflenwi (h.y. CPA) (39 o sylwadau)**

- Mae nifer annigonol o staff wedi arwain at ddyletswyddau ychwanegol i'r staff sy'n weddill;
- Gorfod cyflenwi ar ran cydweithwyr presennol oherwydd y diffyg staff.

#### Enghreifftiau

*Nid oes gennym ddigon o Gynorthwywyr Addysgu felly rwy'n cael fy nefnyddio i gyflenwi pob dyletswydd. Nid wyf yn cael fy egwylliau oherwydd mae gen i grwpiau ymyrryd bach yn aml.*

*Gofynnir i mi gefnogi dysgwyr heb ADY a chyflenwi pwnc/gwaith gyda dysgwyr, heb diwtor yn bresennol, gan fod y tiwtor yn addysgu dysgwyr eraill rywle arall.*

## **2.6. Gwell TGCh – dyluniad, dibynadwyedd a'r defnydd o systemau/cymorth TG sydd ar gael (33 o sylwadau)**

- Oherwydd y pandemig, mae llawer o unigolion cofrestredig wedi 'addysgu' u hunain' i ddefnyddio technoleg ar gyfer dysgu cyfunol. Byddai hyfforddiant ffurfiol yn gwella effeithlonrwydd;
- Mae delio ag ymholiadau TG myfyrwyr yn anodd ac yn cymryd amser;
- Mae darparu gwersi o bell yn heriol tu hwnt, felly gallai hyfforddiant pellach, neu well meddalwedd, wneud hyn yn haws.

### Enghreifftiau

*Gorfod dysgu'n gyflym iawn sut i ddefnyddio technoleg yn dda. Nid wyf yn dda am TG ac mae wedi cymryd oriau maith i mi ddysgu sut i baratoi gwaith i'w rannu ar Teams / Google Classroom ac yna marcio'r holl waith a gyflwynwyd a rhoi sylwadau arno.*

*Llawer mwy o waith i'w lanlwytho'n electronig. Mwy o hyfforddiant ar-lein.*

## **2.7. Mwy o gymorth ar gael gan reolwyr/arweinwyr (29 o sylwadau)**

- Yr un yw'r disgwyliadau ar gyfer staff, er gwaetha'r newidiadau a gyflwynwyd oherwydd y pandemig ac amgylchiadau unigol pob aelod staff;
- Nid oes digon o gydnabyddiaeth ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud ar amser anodd;
- Mae ffocws rheolwyr ar y 'darlun ehangach' wedi arwain at broblemau darparu o ddydd i ddydd.

### Enghreifftiau

*Cael mwy nag un grŵp oedran fesul hwb, dim digon o chromebooks a dim cefnogaeth gan reolwyr pan fyddwch yn pryderu am ddiogelwch o ran faint o gyfnewid a newid sydd i oedolion a hybiau yn ddyddiol.*

*Llai o oriau oherwydd rhesymau personol, disgwyl o hyd i wneud yr un faint o waith ag aelodau staff eraill.*

## **2.8. Cynyddu oriau gweithio disgwyliedig (22 o sylwadau)**

- Dylai 'oriau gweithio' mwy diffiniedig gael eu hamlinellu fel bod amser penodol yn gallu cael ei neilltuo ar gyfer tasgau ychwanegol;
- Mae'r strwythur presennol yn golygu bod yn rhaid i unigolion cofrestredig baratoi yn eu hamser di-dâl eu hunain.

### Enghreifftiau

*Yn fy marn i, byddai amser gorffen gweithio diffiniedig a rhestr wythnosol o ddisgwyliadau gwaith yn golygu diwrnod mwy strwythuredig, oherwydd rwy'n tueddu i'w lenwi â thasgau ychwanegol. Dydw i ddim am roi'r argraff fy mod i'n esgeuluso fy nyletswyddau!*

*Gweithio diwrnodau hirach ac addasu amseroedd dechrau a gorffen yn addas i'r cyfleusterau 8.30 tan 4 a gynigir.*

## **2.9. Sylwadau ychwanegol: yn gysylltiedig â digon o dâl/mwy o dâl (4 o sylwadau)**

- Dylai Cynorthwyr Addysgu 'Lefel Uwch' gael tâl yn unol â hynny, gan fod galw amdanynt ac mae'r disgwyliadau ohonynt yn uwch – yn enwedig Lefel 4;
- Ar hyn o bryd, nid oes cymhelliant ar gyfer yr oriau ychwanegol sy'n cael eu gweithio;
- Amser â thâl, yn benodol ar gyfer cynllunio a pharatoi.

## Enghreifftiau

*O ystyried yr oriau ychwanegol, cyfradd dâl uwch i gynorthwywyr Lefel 4.*

*Fy nhalu i am oriau ychwanegol o waith y tu hwnt i oriau dan contract.*

### **3. Dysgu proffesiynol**

#### **Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored – Dysgu Proffesiynol**

- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol
- iechyd meddwl a lles
- gwella sgiliau Cymraeg
- anghenion dysgu ychwanegol
- rheoli ymddygiad a chymorth ymddygiad
- y cwricwlwm newydd

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,424**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,652**

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 16 Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)

#### **Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â Dysgu Proffesiynol**

##### **3.1. Sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol (301 o sylwadau)**

- Mwy o gyllid ar gyfer hyfforddiant a chaledwedd TG;
- Mwy o gefnogaeth gan reolwyr â hyfforddiant presennol;
- Mwy o ffocws ar ddefnyddio TG ar gyfer dysgu ar-lein;
- Systemau TG wedi'u diweddarau.

## Enghreifftiau

*Cyfarpar TG i'r holl staff yn y gweithle, nid dim ond gorfod defnyddio gliniadur neu iPad sbâr y plant i lanlwytho gwaith dysgwyr ar SeeSaw neu Dojo ac ati.*

*Byddwn yn croesawu datblygiad pellach ym maes TGCh i'm helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol.*

##### **3.2. Iechyd meddwl a lles (258 o sylwadau)**

- Hyfforddiant i gefnogi lles meddyliol myfyrwyr;
- Darparu cymorth cyntaf iechyd meddwl;
- Ymwybyddiaeth o hunan-niwed a thuedd ymhlith myfyrwyr i feddwl am gyflawni hunanladdiad;
- 'Seicoleg addysgol arbenigol';
- Cymorth iechyd meddwl ar ôl y pandemig.

## Enghreifftiau

*Iechyd meddwl a lles plant. Cymorth cyntaf pediatriig. Diogelu a sut i adnabod arwyddion o gamdriniaeth.*

*Mwy o ddealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl. Mae pobl yn tueddu i feddwl mai dim ond teimlo'n isel neu'n drist ydyw. Nid ydynt yn sylweddoli bod pob diwrnod yn frwydr a bod y pethau bach yn bethau mawr iawn mewn gwirionedd.*

### **3.3. Gwella sgiliau Cymraeg (192 o sylwadau)**

- Sawl galwad am gael hyfforddiant ar y Gymraeg fel y gall unigolion cofrestredig siarad Cymraeg neu wella'u sgiliau presennol;
- Hyfforddiant penodol ar sail lefel rhuglder presennol h.y. dechreuwr, canolradd, rhugl;
- Llwybr cliriach neu anogaeth i siaradwyr nad ydynt yn rhugl mewn ysgolion sy'n Gymraeg yn bennaf;
- Rhai galwadau am ddarparu hyfforddiant Iaith Arwyddion yn ogystal;
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant o'r fath;
- Cyrsiau penodol i ysgolion/addysg ac nid dim ond cwrs 'cyffredinol' i ddysgwyr;
- Ceisiadau am gael gwersi Cymraeg 'sgyrsiol' neu 'achlysurol'.

#### Enghreifftiau

*Cymraeg sgyrsiol ond nid yw'n gwrs undydd, nid yw'n ddigon hir, mae angen iddo fod yn ddilyniant parhaus.*

*Dysgu sut i gael y gorau o'r plant wrth siarad Cymraeg – sut i'w hysgogi.*

### **3.4. Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (186 o sylwadau)**

- Neilltuo cyllideb fwy ar gyfer gwasanaethau ADY / AAA;
- Hyfforddiant ar gyfer anghenion penodol disgyblion h.y. awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywioigrwydd (ADHD);
- Hyfforddiant ar sut i weithredu rhaglenni'r ysgol;
- Gwybodaeth bellach am y Ddeddf ADY newydd a fydd yn cael ei chyflwyno ym mis Medi;
- Cymwysterau penodol ar ADY / AAA.

#### Enghreifftiau

*Hyfforddiant arbenigol ar faes ADY penodol*

*Adnabod a chefnogi disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.*

### **3.5. Rheoli ymddygiad a chymorth ymddygiad (177 o sylwadau)**

- Hyfforddiant i ddelio ag ymddygiad heriol gan fyfyrwyr;
- Cymorth ariannol a moesol gan reolwyr.

#### Enghreifftiau

*Hoffwn i ddelio â rheoli ymddygiad yn fwy hyderus.*

*Cefnogi plant ag ymddygiad heriol.*

### **3.6. Y cwricwlwm newydd (142 o sylwadau)**

- Darparu hyfforddiant/gwybodaeth am y cwricwlwm cenedlaethol newydd;
- Hyfforddiant ar 'eirfa addysgegol';
- Holi staff am gynnwys y cwricwlwm – sicrhau bod gan bawb y wybodaeth ofynnol;
- Gweithredu a datblygu.

#### Enghreifftiau

*Dealltwriaeth well o'r cwricwlwm newydd.*

*Twf proffesiynol i Gynorthwywyr Addysgu ynghylch y cwricwlwm newydd; mae'n ymddangos bod y staff addysgu'n cymryd mwy o ran ac yn ei ddeall yn well, mae hi fel pe bai Cynorthwywyr Addysgu'n cael eu cynnwys mewn ambell gyfarfod sydd y tu hwnt i'n gwybodaeth ni.*